

**COUNTY COUNCILLOR ANTHONY M ERNEST F.T.S., M.R.S.G.B.
VALE OF GLAMORGAN COUNTY BOROUGH COUNCIL**

29th September, 2024.

Boundaries Commission Wales
CARDIFF.

**PROPOSED SENEDD CONSTITUENCY – CARDIFF SOUTH & PENARTH
/ CARDIFF WEST**

Dear Sir/Madam,

I write in my capacity as the Senior Member of the Vale of Glamorgan County Borough Council, for some 30 years, a former Chairman (Mayor) of the Authority, and as a former Penarth Town Councillor (and Mayor on two occasions), with 40 years of Service to the community of Penarth and its surrounding community.

It is my considered view, and that of a good number of local councillors, as well as many friends and local residents, that Penarth, Dinas Powys, Llandough and Sully should **not** be joined with Cardiff West in your suggested new “Paired Constituency” of Cardiff South and Cardiff West, for a good number of reasons, on which I enlarge below:

1. There are very strong feelings that Dinas Powys and Penarth, as well as Sully and Llandough, are much better suited within the new Vale of Glamorgan Constituency. Both physically and socially, residents feel a strong affinity with the Vale of Glamorgan, rather than the heavily urbanised city area of Cardiff West, with which the above settlements have absolutely no affinity whatsoever.
2. The grassroots Local Government Boundary of the Vale of Glamorgan already encompasses the above communities, and this is the most convenient and practical home for the delivery of vital services to these 4 communities. At present there is an awkward disjoint, with the above settlements being part of South Cardiff, whilst the remainder of the Vale area sits comfortably within its own administrative area, to the greater benefit of the latter.
3. Dinas Powys and Penarth have strong social and economic links. Dinas Powys children go to Secondary School in Penarth or a Welsh School in Barry. Bus Routes run out of Penarth into the Vale and Barry. (88, 92, 93, 94, 95). Dinas Powys and

Penarthians have to go to Barry for hospital appointments (Minor Injuries and Eye Sight Tests).

4. The Vale's principal Library is in Barry not Cardiff, whilst educationally, the Catholic School in Barry serves the whole Vale, including the 4 above settlements.
5. Dinas Powys and Penarth are inextricably linked to the Vale administratively economically and culturally in terms of political accountability. It is confusing for residents and the electorate generally that so many key public bodies do not share co-terminous boundaries
6. The Commission is required to consider such links within the new "Paired Constituencies" as Social Cohesion, inter-connecting Main Roads, ability to travel between the various parts, and essentially the "Community of Interest" between the suggested partner constituency, and the mooted proposal.
7. Cardiff West has no, and never has had, any social or cultural links with Penarth, Dinas Powys, Llandough and Sully
8. Cardiff West has no direct travel links between it and the above settlements – no bus services, nor trains connect these unrelated areas.
9. There is not the slightest "Community of Interest" between the good people of West Cardiff, and those of the Eastern Vale of Glamorgan, and never has been.

In summary, it is our opinion that the settlements of Penarth, Dinas Powys, Sully and Llandough be much better served by being included into the new Vale of Glamorgan Senedd Constituency, where their residents can expect to be much more effectively served by MS's, to be elected under the new proportional system being introduced for 2026.

The Commissioners are respectfully requested to make these amendments accordingly.

Co. Cllr. Anthony M. Ernest.

29th September, 2024.

Y CYNGHORYDD SIR ANTHONY M ERNEST F.T.S., M.R.S.G.B.
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

29 Medi 2024

Comisiwn Ffiniau Cymru
CAERDYDD

ETHOLAETH A GYNIGIR AR GYFER Y SENEDD – DE CAERDYDD A PHENARTH/GORLLEWIN CAERDYDD

Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd fel Aelod Hŷn o Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, ers rhyw 30 mlynedd, cyn-Gadeirydd (Maer) yr Awdurdod, a chyn-Gynghorydd Tref Penarth (a Maer ddwy waith) sydd wedi bod yn gwasanaethu cymuned Penarth a'r gymuned gyfagos ers 40 mlynedd.

Wedi ystyried, fy marn i a barn nifer dda o gynghorwyr lleol yn ogystal â llawer o ffrindiau a thrigolion lleol, yw **na** ddylai Penarth, Dinas Powys, Llandochar a Sili gaell eu huno â Gorllewin Caerdydd yn yr “etholaeth wedi’i pharu” newydd a awgrymir gennych, sef De Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, a hynny am nifer dda o resymau yr wyf am ymhelaethu arnynt isod:

- Teimlir yn gryf iawn y byddai’n fwy addas o lawer cynnwys Dinas Powys a Phenarth, yn ogystal â Sili a Llandochar, yn etholaeth newydd Bro Morgannwg. Mae'r trigolion yn teimlo bod ganddynt gysylltiad cryf, o safbwyt ffisegol a chymdeithasol, â Bro Morgannwg yn hytrach na Gorllewin Caerdydd, sy'n ardal drefol dros ben o'r ddinas, nad oes gan yr aneddiadau uchod ddim cysylltiad o gwbl â hi.
- Mae Ffin Llywodraeth Leol Bro Morgannwg ar lawr gwlaid eisoes yn cwmpasu'r cymunedau uchod, a dyma'r cartref mwyaf cyfleus ac ymarferol ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i'r pedair cymuned dan sylw. Ar hyn o bryd, ceir rhaniad lletchwith oherwydd bod yr aneddiadau uchod yn rhan o Dde Caerdydd tra mae gweddill ardal y Fro yn gorwedd yn gysurus yn ei hardal weinyddol ei hun ac yn cael mwy o fudd o hynny.

3. Mae gan Ddinas Powys a Phenarth gysylltiadau cymdeithasol ac economaidd cryf. Mae plant Dinas Powys yn mynd i ysgol uwchradd ym Mhenarth neu i ysgol Gymraeg yn y Barri. Mae llwybrau bysiau'n mynd allan o Benarth i'r Fro a'r Barri (88, 92, 93, 94, 95). Mae'n rhaid i bobl Dinas Powys a Phenarth fynd i'r Barri am apwyntiadau ysbty (ar gyfer mân anafiadau a phrofion llygaid).
4. Yn y Barri y mae prif lyfrgell y Fro, nid yng Nghaerdydd, ac o safbwyt addysgol mae'r Ysgol Gatholig yn y Barri yn gwasanaethu'r Fro yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y pedwar anheddiad uchod.
5. Mae cysylltiad anorfol rhwng y Fro a Dinas Powys a Phenarth, yn weinyddol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. O safbwyt atebolrwydd gwleidyddol, mae'r ffaith nad yw cymaint o gyrrff cyhoeddus allweddol yn rhannu'r un ffiniau yn achosi dryswch i'r trigolion ac i'r etholwyr yn gyffredinol.
6. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried cysylltiadau o'r fath yn yr "etholaethau wedi'u paru" newydd – ffactorau megis cydlyniant cymdeithasol, priffyrrd sy'n cysylltu â'i gilydd, y gallu i deithio rhwng amryw rannau'r etholaeth, ac yn y bôn y "gymuned fuddiant" rhwng yr etholaeth bartner a awgrymir a'r cynnig a grybwyllic.
7. Nid oes gan etholaeth Gorllewin Caerdydd, ac ni fu ganddi erioed, unrhyw gysylltiadau cymdeithasol na diwylliannol â Phenarth, Dinas Powys, Llandochau a Sili.
8. Nid oes gan etholaeth Gorllewin Caerdydd unrhyw gysylltiadau teithio uniongyrchol â'r aneddiadau uchod – nid oes unrhyw wasanaethau bws na thrên yn cysylltu'r ardaloedd hyn nad ydynt yn perthyn i'w gilydd.
9. Nid oes unrhyw arwydd o "gymuned fuddiant", ac ni fu "cymuned fuddiant" erioed, rhwng pobl dda Gorllewin Caerdydd a phobl dda Dwyrain Bro Morgannwg.

I grynhoi, ein barn ni yw y byddai aneddiadau Penarth, Dinas Powys, Sili a Llandochau yn cael eu gwasanaethu'n well o lawer pe baent yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth Bro Morgannwg newydd ar gyfer y Senedd. Yno, gall trigolion yr aneddiadau ddisgwyl cael eu gwasanaethu'n fwy effeithiol o lawer gan ASau a gaiff eu hethol dan y system cynrychiolaeth gyfrannol newydd a gyflwynir ar gyfer 2026.

Gofynnir, gyda phob parch, i'r Comisiynwyr wneud newidiadau i'r cynigion yn unol â'r uchod.

Y Cynghorydd Sir Anthony M. Ernest

29 Medi 2024